COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd - Cyfeirnod. DLl230

**Amseru:** Arferol

**Teitl:** Cytundeb i symud ymlaen gyda Gwaith Diogelwch Tân yr Awdurdod Tân ac Achub ar draws yr Heddlu ar gost gynyddol.

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Llywodraethu / Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**
Yn unol â disgwyliadau'r cyhoedd o reolaeth ariannol gadarn o bwrs y wlad, cynhaliwyd cyfarfod eithriadol ar fore'r 14eg o Fedi 2021 i drafod goblygiadau cost gynyddol y gwaith Awdurdod Tân ac Achub. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn cynnwys PG Dros Dro Dyfed-Powys, PSA CHTh Gogledd Cymru, Pennaeth Staff SCHTh Dyfed-Powys, Cyfarwyddwr Ystadau SCHTh Dyfed-Powys a Rheolwr Prosiectau SCHTh Dyfed-Powys.

Cyflwynodd y Rheolwr Prosiectau adroddiad yn amlinellu'r gost gynyddol a'r rhesymau drostynt. Ystyriwyd pob pwynt yn ofalus, a rhoddwyd cytundeb i symud ymlaen gyda'r contractwr llwyddiannus HMBS am swm a dendrwyd o'r newydd, sef £461,173.97.

**Argymhelliad:**
Gofynnir i'r Comisiynydd adolygu'r wybodaeth uchod, ynghyd â'r adroddiad amgaeedig, a chymeradwyo'r penderfyniad i symud ymlaen fel y crynhowyd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad: 21/09/2021**